

Newidiadau i safonau FAWL – Ebrill 2018. Dangosir y newidiadau i'r safonau blaenorol yn **GOCH**

Daw'r safonau diwygiedig i rym ar 1af Ebrill 2018. Fe fyddwn yn asesu ffermydd yn eu herbyn o'r 1af Gorffennaf 2018 gan eithrio yr adrannau ar storio bwyd anifeiliad a systemau rheoli plâu/fermin gyda newidiadau i'r adrannau hynny wedi eu hysbysebu i'r aelodau yng nghylchlythyr Gaeaf 2017 (gweler isod).

Adran	Safon	Rheswm dros newid
Tagio Defaid a'u Hadnabod	Rhaid bod modd adnabod yr holl wyn sy'n cael eu geni ar ddaliad yn unol â deddfwriaeth yr UE, y DG a Chymru. Rhaid bod modd adnabod wyn trwy dagio (neu ffordd gymeradwy arall) cyn eu symud oddi ar eu daliad geni cyn iddynt gyrraedd 6 mis oes (os cânt eu rheoli'n ddwys) neu 9 mis (os cânt eu rheoli'n llai dwys). Rhaid i'r holl wyn sy'n cael eu hadnabod gael eu tagio'n electronig naill ai gyda thag lladd-dy electronig sengl (os bwriedir eu lladd mewn lladd-dy yn y DG o fewn 12 mis) neu EID llawn (1 tag electronig a thag anelectronig ag union yr un rhifau).	Diwygiwyd i sicrhau bod safonau yn gyson â rheoliadau
Cofnod Diadelloedd Defaid	Rhaid cadw cofrestr diadelloedd ar y fferm yn unol â gofynion deddfwriaeth gyfredol Cymru, y DG a'r UE. Rhaid gwneud rhestr bob blwyddyn o'r defaid oedd ar ddaliadau ar 1 Ionawr. Rhaid cofnodi'r holl fanylion am adnabod, marwolaethau a symud: Manylion Adnabod – O fewn 36 awr i dagio neu ddull cymeradwy arall (yn unol â 1c uchod) Marwolaethau – O fewn 36 awr i ddarganfod marwolaeth. Rhaid i'r cofnod gynnwys y dull o waredu'r carcass a manylion adnabod perthnasol. Symud – O fewn 36 awr ac adroddiad i EID Cymru o'r symud (neu os defnyddir Pwynt Cofnodi Canolog, caniateir 48 awr ar gyfer mewnbwynu manylion tagio), rhaid i'r manylion gynnwys y dyddiad ynghyd â nifer y defaid a'u manylion adnabod, eu ffynhonnell a'u cychfan.	Diwygiwyd i sicrhau bod safonau yn gyson â rheoliadau
Trwyddedau Symud Defaid	Rhaid defnyddio dogfennau symud i hysbysu EID Cymru am holl symudiadau defaid i'r daliad ac oddi arno o fewn tridiau i'r symud. Rhaid i'r rhain gynnwys rhifau adnabod unigol os yw'n berthnasol.	Diwygiwyd i sicrhau bod safonau yn gyson â rheoliadau
Da byw wedi'u prynu	Rhaid i'r holl dda byw dreulio cyfnod penodol cyn eu lladd ar fferm wedi'i chofrestru o dan gynllun gwarant fferm cydnabyddedig. Mae modd rhannu'r cyfnod hwnnw rhwng mwy nag un fferm warrant. Mae'n rhaid i'r prynwr wirio bod perchennog blaenorol yn aelod o gynllun gwarant cymeradwy. Y cyfnodau penodol yw: Gwartheg Cig Eidion 90 niwrnod a Defaid 60 niwrnod.	Diwygiwyd i gynnal cywerthedd â safonau'r Tractor Coch i'r cynllun cig eidion a chig oen
Statws wedi'i Warantu	Os ydych yn bwriadu marchnata eich cynnyrch dan y cynllun Tractor Coch, mae'r canlynol yn berthnasol: <ul style="list-style-type: none"> • Os prynir da byw o farchnad, mae'n rhaid i'r farchnad fod wedi'i gwarantu • Rhaid i gludwyr a cherbydau a ddefnyddir i gludo da byw fod wedi'u gwarantu, naill ai dan gynllun FAWL, cynllun Cludo Da Byw y Tractor Coch (neu gynllun tebyg). 	Er mwyn eglurhad ac i gynnal cywerthedd â safonau'r Tractor Coch i'r cynllun cig eidion a chig oen
Defnydd anaddas neu anghyfreithlon o feddygiaethau	Mae'n drosedd i ddefnyddio neu fod â chynhyrchion heb eu hawdurdodi neu feddygiaethau dan reolaeth yn eich meddiant oni bai eu bod wedi eu rhoi'n gyfreithlon ar bresgripsiwn gan gyflwynwr awdurdodedig . Rhaid defnyddio meddygiaethau dan reolaeth yn unig ar y da byw ac i'r cyflwr neu anhwylder y cawsant eu rhoi ar bresgripsiwn.	I egluro bod yn rhaid defnyddio meddygiaethau i'r pwrpas a'r stoc a fwriadwyd
Cymhwysedd Stocmyn	Rhaid i holl bersonel y fferm sydd â chyfrifoldebau dros dda byw fod yn gymwys ar gyfer yr holl dasgau y mae disgwyl iddynt eu gwneud, a rhaid bod ganddynt yr holl hyfforddiant a chymwysterau statudol perthnasol. Mae'n rhaid cynnal hyfforddiant gloymi yn ôl yr angen	I sicrhau bod aelodau FAWL yn cynnal safonau cymwysterau pan fydd gofyn iddynt wneud hynny
Cynllun Iechyd a Lles gan gynnwys trefniadau Bioddiogelwch	Rhaid llunio cynllun iechyd a lles cynhwysfawr ar gyfer yr holl fentrau da byw a defaid. Bydd angen i'r cynllun gynnwys manylion am weithdrefnau arferol fel rheoli parasitiadau a pholisi brechu; canlyniadau unrhyw brofi perthnasol (e.e. post mortem, dadansoddi bwydydd da byw, cyfrif wyau ysgarthol ac ati) a manylion am broblemau sy'n digwydd yn rheolaidd a thargedau am y flwyddyn ddilynol. Bydd angen iddo hefyd gynnwys manylion am drefniadau bioddiogelwch y fferm (gan gynnwys rheoliadau cwarantini) i reoli peryglon bioddiogelwch all godi o stoc sy'n dod i mewn, o ba bynnag ffynhonnell.	I egluro beth sy'n ofynnol o gynllun iechyd a lles
Adolygiad blynyddol o iechyd a lles da byw	Rhaid cynnal adolygiad blynyddol o iechyd a lles da byw gyda milfeddyg y fferm. Disgwylir i'r milfeddyg adolygu: <ol style="list-style-type: none"> (1) problemau sy'n digwydd yn rheolaidd a materion allweddol, gan wneud argymhellion i wella'r problemau a nodwyd (2) cofnodion a data meddygiaethau, gan gynnwys y defnydd o gyffuriau anthelmintig, y defnydd o lyngyr-laddwyr a chyfanswm y gwrthfotigau a roddwyd ar bresgripsiwn ac a ddefnyddiwyd, gan wneud argymhellion ar gyfer lleihau'r meddygiaethau a ddefnyddir mewn modd cyfrifol, lle bo hynny'n briodol (3) y defnydd o Wrthfotigau Hollbwysig â'r Blaenoriaethau Uchaf (HP-CIAs) a gwneud argymhellion ar gyfer lleihau'r defnydd a wneir ohonynt mewn modd cyfrifol (4) triniaethau prophylactig a gwneud argymhellion ar gyfer strategaethau rhwystro afiechyd amgen 	DIWYGIWYD: I gynnal cywerthedd â safonau'r Tractor Coch ac ateb galw cyhoeddus am leihau'r defnydd o wrthfotigau yn benodol a lleihau gwrthiant gwrthfotigau
Hysbyswyd yr aelodau o'r newidiadau canlynol i safonau storio bwyd glanweithdra a diheintio yng nghylchlythyr Gaeaf 2017 ac maent wedi eu cynnwys yn y safonau newydd. Fe fydd ffermydd yr aelodau yn cael eu hasesu yn erbyn y safonau yma o'r 1af Ebrill 2018.		
Storio Bwyd	Rhaid cynhyrchu, storio, trafod, cludo a rheoli pob bwyd mewn modd sy'n ei gadw'n lân, heb ei halogi ac mewn cyflwr ffisegol da. Rhaid cael polisi i sicrhau bod modd rhwystro, atal neu leihau unrhyw beryglon/peryglon posibl i ddiogelwch bwyd wrth iddo gael ei gynhyrchu, ei storio, ei drafod a'i gludo. Dylai'r polisi nodi gofynion ar gyfer cynnal glendid yr holl storfeydd bwyd/mannau storio a'r offer gaiff ei ddefnyddio ar gyfer trafod, cludo a bwydo, ac mae'n rhaid cynnal dogfennau priodol a sicrhau bod y polisi yn cael ei weithredu.	I sicrhau cydnabyddiaeth i aelodau FAWL gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar gyfer defnyddio a storio bwyd
Glanweithdra a diheintio	Rhaid cadw tai anifeiliad a'r holl gyfarpar rheoli da byw yn lân a hylan. Rhaid cynllunio, lleoli ac adeiladu manau storio bwyd, manau bwydo ac offer bwydo mewn modd sy'n lleihau risg o halogi bwyd. Dylai manau storio bwyd a manau bwydo gael golau digonol fel bod modd eu harchwilio; rhaid i offer bwydo fod yn addas i'w ddefnyddio a rhaid ei gynnal/calibro gan ddilyn argymhellion y gwneuthurwr yn ôl yr angen.	I sicrhau cydnabyddiaeth i aelodau FAWL gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar gyfer defnyddio a storio bwyd
** Systemau Rheoli Plâu/Fermin	Noder os gwelwch yn dda bod y safonau rheoli plâu/fermin wedi cael eu diwygio ar 1 Ionawr 2018 er mwyn sicrhau cydnabyddiaeth i aelodau FAWL gan Ymgyrch Defnyddio Llygodladdwyr yn Gyfrifol (CRRU); mae'r diwygiadau hyn (y rhoddwyd gwybod i aelodau amdanynt yng Nghylchlythyr Gaeaf 2017) wedi cael eu hymgorffori yn y safonau newydd. Fe fydd ffermydd yr aelodau yn cael eu hasesu yn erbyn y safonau yma o'r 1af Ebrill 2018.	

Cadw Da Byw ar Dennyn	Ni chaniateir cadw anifeiliaid ar dennyn drwy gydol y flwyddyn. Rhaid sicrhau bod da byw a gedwir ar dennyn fel arfer yn cael symud heb dennyn yn ddyddiol. Dylai da byw a gedwir ar dennyn fel arfer eu rhyddhau o'r tennyn cyn lloia (noder: gellir rhoi tennyn ar dda byw yn ystod lloia os oes angen ymyrraeth). Ni ddylai tenynnau achosi poen a dylid sicrhau bod gan dda byw ddigon o le i orwedd, codi heb drafferth, sefyll mewn safle naturiol, ymestyn a thwtio heb rwystr. Ni ddylai cebystrau/coleri/cadwyni pen fod yn gallu tynhau a rhaid sicrhau eu bod wedi'u gwneud allan o ddefnyddiau sydd ddim yn sgraffinïol.	NEWYDD: I ymateb i geisiadau gan aelodau a oedd eisiau mwy o esboniad ynghylch cadw anifeiliaid ar dennyn ar ffermydd aelodau
Cludwyr dan contract	Rhaid i gludwyr da byw sydd dan contract i'r cynhyrchwr fod yn gyfranogwyr cymeradwy yng Nghynllun Cludo Da Byw ABM neu gynllun cymeradwy tebyg. Rhaid gwybod beth yw rhifau aelodaeth y cludwyr.	Diwygiwyd i gynnal cywerthedd â safonau'r Tractor Coch i'r cynllun cig eidion a chig oen
Llwytho da byw	Rhaid llwytho da byw yn ddigynnwrf, mewn ffordd sy'n lleihau straen a'r perygl o anaf i'r anifeiliaid a'r rhai sy'n eu trafod. Rhaid i'r cyfleuster llwytho fod yn ddiogel a phriodol. Rhaid iddo gael golau digonol, rhaid i'r strwythur fod yn gadarn ac mae'n rhaid sicrhau nad yw'r offer a ddefnyddir yn debygol o achosi anafiadau, fel ymylon miniog. Caniateir y defnydd o drosglwyddo anifeiliaid o gerbyd i gerbyd drwy'r drws ôl i oresgyn problemau mynediad i'r safle a lleihau hyd teithiau yn unig os yw'n digwydd o fewn ffin y safle llwytho gyda chyfleusterau addas (fel y'u diffinnir gan ddeddfwriaeth).	Diwygiwyd i gynnal cywerthedd â safonau'r Tractor Coch i'r cynllun cig eidion a chig oen
Cymhwysedd personél	Rhaid i holl staff y fferm a chontractwyr fod yn ymwybodol o sut gallai llygredd ddigwydd a rhaid iddynt fod â dealltwriaeth dda o'r holl gynlluniau rheoli perthnasol a'r holl ofynion rheoliadol cyfredol, priodol.	I sicrhau bod pawb sy'n cyfrannu at reoli'r fferm yn hollol ymwybodol o reoliadau amgylcheddol
Polisi Rheoli Pridd	Rhaid i aelodau FAWL arddangos ymwybyddiaeth o achosion posibl colli pridd oherwydd cywasgiad pridd, erydiad pridd neu ormod o sathru gan dda byw a rhaid iddynt allu esbonio polisi o sut y byddent yn rhwi mesurau lliniaru ar waith i leihau'r risg hwnnw.	I ateb gofynion am fwy o ffocws ar broblemau erydiad pridd ar ffermydd aelodau
Rheoli a Storio Tail ar Ffermydd	Rhaid i aelodau FAWL leihau'r perygl o lygredd o dail, slyri, defnydd organig arall neu bathogenau. Rhaid i bob fferm gael Cynllun Rheoli Tail a'i roi ar waith. Rhaid i gyfleusterau storio achles/slyri fod yn ddigonol a rhaid i gaeau a chyflwr y pridd fod yn addas ar gyfer gwasgaru tail/slyri. Bydd Cynllun Rheoli Tail Buarth yn dangos ymrwymiad i leihau'r perygl o lygredd a chydymffurfio â'r Cod Ymarfer Amaethyddol Da.	I ateb gofynion am fwy o ffocws ar broblemau erydiad pridd ar ffermydd aelodau
Polisi rheoli maetholion	Rhaid i aelodau FAWL ddangos ymwybyddiaeth o'r amodau a chyfyngiadau ynglŷn â defnyddio holl ffynonellau o faetholion a chalch. Dylai'r holl wrtaith ac achles sy'n cael eu rhoi i'r tir fod yn unol â pholisi sy'n ceisio lleihau gorddefnyddio a cholli maetholion sy'n cael eu rhoi i'r tir fel gwrtaith. Gall datblygu a defnyddio Cynllun Rheoli Maetholion ddangos ymrwymiad i wneud y defnydd mwyaf effeithlon o wrteithiau a lleihau'r risg o lygredd oherwydd defnydd anaddas o faetholion.	I ddynodi y dylai ffermydd fod yn ymwybodol o'r amodau a'r cyfyngiadau ar gyfer taenu holl faetholion, yr angen i leihau risg a thaenu anaddas
Slyri, dŵr brwnt, elifion silwair	Rhaid cadw'r holl ddeunyddiau fferm sy'n hylifol ac organig (gan gynnwys hylif o bentyrtau tail solet) mewn storffeydd anathraidd wedi'u hadeiladu i'r pwrpas hwnnw ac sy'n ddigon mawr yn ôl y gyfraith ac yn ddigon gwydn i leihau unrhyw fygythiad i'r amgylchedd ac sy'n cydymffurfio â chynllun rheoli tail a pholisi rheoli maetholion y fferm. Rhaid i'r storffeydd hyn fod o leiaf 10 metr oddi wrth unrhyw ffos, draen tir neu gwrs dŵr oni bai fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cytuno fel arall, yn ysgrifenedig.	I sicrhau bod llygryddion posibl yn cael eu cadw dan reolaeth i leihau'r bygythiad o lygredd
Tail solet	Rhaid i storffeydd tail parhaol fod â sail anathraidd a modd i gasglu neu ymatal goferiad. Rhaid i storffeydd maes dros dro gael eu hail-leoli bob blwyddyn. Rhaid i'r holl storffeydd fod o leiaf 10 metr oddi wrth unrhyw ffos, draen tir neu nant.	I egluro'n well
Olew tanwydd	Rhaid i danciau sy'n gallu storio dros 200 litr o olew neu'r tir oddi amgylch fod â bwnd nad yw'n gollwng ac sy'n gallu cynnwys 10% yn fwy na'r hyn y mae'r holl danciau'n gallu cynnwys. Hefyd, rhaid cadw'r holl bibellau dan glo oddi mewn i'r bwnd pan na fyddant yn cael eu defnyddio. Rhaid cael cyfleusterau brys – megis bwcedaid o dywod neu ronynnau amsugol neu, yn ddefnyddol, fwnd digonol – i ddelio â gollyngiadau damweiniol. Mae'r olew yn cynnwys olew gwastraff, neu olew gaiff ei storio mewn trochwyr symudol. Mae olew o fewn tanciau tanwydd cerbydau sy'n ddiogel i fod ar y ffordd wedi'i eithrio.	Diwygiwyd i sicrhau bod safonau yn gyson â rheoliadau
Gwastraff fferm	Rhaid i wastraff fferm gael ei storio mewn modd priodol sy'n ei gadw'n ddiogel hyd nes bod modd ei waredu'n briodol.	I sicrhau bod gwastraff fferm yn cael ei reoli'n ddiogel
Slyri, dŵr brwnt, elifion silwair	Rhaid rhoi'r rhain ar dir yn unol â COGAP (mewn Parthau Perygl Nitradau (NVZ), ceir cyfyngiadau pellach ar daenu) mewn ffordd sy'n lleihau'r perygl o lygredd dŵr; aroglau annerbyniol, cywasgu pridd neu niwed amgylcheddol arall. Ni ddylid eu rhoi o fewn 10 metr i gwrs dŵr neu ffos a 50 metr i ddyfrdwl neu ffynnon oni ddefnyddir offer manwl fel chwistrellwr slyri, bar diferion neu system 'trailing shoe' gan fod modd defnyddio'r rhain rhwng 10m a 6m o gwrs dŵr.	Diwygiwyd i sicrhau bod safonau yn gyson â rheoliadau a nodi cyfyngiadau pellach mewn Parthau Perygl Nitradau
Tail solet	Rhaid rhoi achlesau organig solet i'r tir yn unol â COGAP (mewn Parthau Perygl Nitradau (NVZ), ceir gofynion cyfreithiol eraill) mewn ffordd sy'n lleihau'r perygl o lygredd dŵr, aroglau annerbyniol neu gywasgu pridd. Ni ddylid eu defnyddio o fewn 10 metr i gwrs dŵr neu ffos a 50 metr i ddyfrdwl neu ffynnon.	
Deunyddiau organig	Gellir rhoi deunyddiau organig fel gweddillion treuliad anaerobig neu slwtsh carthion ar dir er budd amaethyddol cyn belled â bod hynny'n cydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth briodol.	I ddarparu ar gyfer rhoi gweddillion treuliadau anaerobig ar dir
Cynhyrchion Amddiffyn Planhigion (PPP)	Rhaid rhoi'r holl PPP ar y tir mewn modd sy'n lleihau'r risg o halogiad neu lygru. Rhaid nodi manau risg llygru uchel ar fap fferm ac ni ddylid rhoi PPP ar y tir yn y manau hyn.	I gynnal cywerthedd â safonau'r Tractor Coch i'r cynllun cig eidion a chig oen
Gwastraff peryglus	Rhaid gwaredu'r holl wastraff peryglus yn unol â Rheoliadau Rheoli Gwastraff 2009 a'r Canllawiau Dyletswydd Gofal gan gynnwys defnyddio Nodyn Llwyth a hysbysir i CNC. Rhaid i safleoedd sy'n cynhyrchu neu'n storio mwy na 500kg o wastraff peryglus y flwyddyn gofrestru gyda CNC bob blwyddyn.	Diwygiwyd i sicrhau bod safonau yn gyson â rheoliadau
Gwastraff plastig	Ni ddylech waredu gwastraff plastig, e.e. defnydd lapio silwair ond drwy weithredwr gwastraff sy'n meddu ar y drwydded Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol perthnasol.	Diwygiwyd er mwyn egluro: bod yn rhaid i weithredwyr feddu ar drwydded berthnasol
Baddon dipio	Rhaid gosod y baddon o leiaf 10 metr oddi wrth ffos neu gwrs dŵr; ni ddylai fod â thwll draenio a rhaid bod modd casglu diferion o'r defaid. Rhaid gorchuddio'r baddon pan nad yw'n cael ei ddefnyddio. Rhaid i'r safle dipio gydymffurfio gyda'r canllawiau ar gyfer dip defaid sydd yn y Cod Diogel Dŵr Daear.	Diwygiwyd i sicrhau bod safonau yn gyson â rheoliadau